

Ynglŷn â'r Treial

Beth yw Cyd Ynni - Ynni Lleol?

Cyd Ynni - Ynni Lleol yw enw'r grŵp o gartrefi sy'n cymryd rhan yn y treial hwn. Bydd yn rhad ac am ddim i ymuno â'r grŵp.

Sut fyddaf yn arbed arian drwy ddefnyddio pŵer hydro lleol?

Bydd gennych fesurydd deallus fydd yn dangos faint o drydan rydych yn ei ddefnyddio bob hanner awr. Bydd y trydan a ddefnyddiwyd pan mae hydro Afon Berthan yn cynhyrchu dim ond yn costio ~ 7c / kW awr i chi, sy'n sylweddol llai na'r pris cyfartalog mae cartrefi yn talu am drydan erbyn hyn (sydd tua 14c). Hwn fydd y trydan rhataf fydd ar gael i chi fel aelod o Cyd Ynni - Ynni Lleol.

Ar rai adegau o'r dydd, bydd yn bosibl y bydd yr holl drydan rydych yn ei ddefnyddio yn cyfateb i'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu gan hydro Afon Berthan. Ar adegau eraill, byddwch yn defnyddio mwy nag sydd ar gael a byddwch yn talu ar gyfraddau gwahanol ar gyfer hyn yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd. Bydd y cyfraddau hyn yn rhatach yn ystod y nos ac amser cinio, yn ddrytach amser brechwast ac amser te. Gelwir hyn yn "Tariff Amser Defnydd".

Mae'r cydbwysedd rhwng faint o drydan a brynwch ar ~ 7c / kW awr a faint yr ydych yn prynu ar dariff amser defnydd yn dibynnu ar gyfanswm y pŵer sy'n cael ei gynhyrchu a pha mor fawr yw eich cyfran chi o'r pŵer hwnnw.

Beth yw fy nghyfran i o'r hydro?


Bydd y trydan a gynhyrchir gan hydro Afon Berthan yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y cartrefi yng Nghyd Ynni - Ynni Lleol sy'n defnyddio trydan ar y pryd. Weithiau bydd eich cyfran yn ddigon i gynnwys yr holl drydan rydych yn ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod hwnnw, ar adegau eraill, byddwch yn prynu cymysgedd o drydan o'r hydro a thrydan ar y Tariff Amser Defnydd

Efallai y bydd nifer cyfyngedig o ddyddiau yn y flwyddyn lle mae'r hydro ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu pan nad oes digon o law a'r hydro ond yn cynhyrchu ychydig neu ddim trydan. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd hyn yn digwydd.

Drwy symud eich trydan i amseroedd allfrig mae'n fwy tebygol y bydd cyfran o'r hydro ar gael a fydd yn ddigon i gyflenwi'r trydan rydych yn ei ddefnyddio.

Beth yw Tariff Amser Ddefnydd?

Mae Tariff Amser Ddefnydd yn golygu y byddwch yn talu symiau gwahanol am drydan ar wahanol adegau o'r dydd. Bydd amseroedd allfrig yn ystod y nos ac yng nghanol y dydd ac oriau brig amser brechwast a gyda'r nos. Gweler prisiau'r tariffau amser ddefnydd isod:



Prisiau Trydan Cyd Ynni – Ynni Lleol

Faint fyddaf yn ei arbed?

Bydd hyn yn amrywio o gartref i gartref a bydd yn dibynnu ar sut bydd eich defnydd o ynni yn cyfateb i'r ynni a gynhrychir gan yr hydro a faint o drydan oriau brig ac allfrig rydych yn ei ddefnyddio. Rydym yn amcangyfrif y gallech arbed tua £100 y flwyddyn.

Sut fyddaf yn gwybod pryd fydd fy nefnydd o drydan yn cyfateb i'r hyn a gynhrychir gan yr hydro?

Bydd gennych fesurydd deallus wedi'i osod i ddangos faint o drydan rydych yn ei ddefnyddio bob hanner awr. Felly, byddwn yn gallu dangos i chi'r adegau pan oeddech yn defnyddio pŵer a oedd yn cael ei gynhrychu gan yr hydro. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi rhagolwg i chi o faint o bŵer fydd yn dod o'r hydro bob diwrnod, fel bydd gennych syniad ymlaen llaw faint o'r pŵer yr ydych chi yn ei ddefnyddio fydd yn cyfateb i'r pŵer a gynhrychir gan yr hydro.

Beth yw pŵer hydro?

Pŵer hydro yw trydan a grëwyd gan dc Amser bin. Bydd y pŵer hydro yn y treial yn dod o'r cynllun 100kW sy'n eiddo i'r Ynni Lleol aethol o'r enw Afon Berthan .

Beth os nad wyf yn siŵr faint o drydan rwyf yn ei ddefnyddio?

Rydym yn bwriadu darparu tudalen we i arddangos eich defnydd o ynni bob hanner awr.

Byddwn yn darparu awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i reoli eich defnydd o drydan, a dangos i chi sut y gallech ddefnyddio llai o drydan a symud eich defnydd i amseroedd rhatach o'r dydd.

Pam ei bod yn bwysig ceisio lleihau'r defnydd o drydan yn ystod oriau brig?

Er mwyn gwneud y gorau o fod yn rhan o Cyd Ynni - Ynni Lleol, mae'n bwysig i wneud ymdrech i leihau faint o drydan rydych yn ei ddefnyddio ar adegau brig (brecwast a gyda'r nos).

Trydan min nos fydd y drytaf ar y Tariff Amser Ddefnydd ac mae hyn yn nodweddiadol pan fydd y defnydd o drydan ar ei fwyaf, felly bydd eich cyfran chi o'r trydan a gynhyrchir gan yr hydro yn llai tebygol o gyfateb i'ch defnydd ar yr amseroedd yma.

Drwy symud pŵer i adegau eraill o'r dydd byddwch yn osgoi prisiau uchel ar y Tariff Amser Defnydd a bydd eich cyfran chi o'r ynni a gynhyrchir gan yr hydro yn debygol o gyfateb i fwy o'r ynni rydych yn ei ddefnyddio.

Pa fath o bethau y gallaf ei wneud i symud fy nefnydd o drydan i ffwrdd oddi wrth yr amseroedd brig?

Mae llawer o'r camau y gallwch eu cymryd yn syml - fel rhedeg eich peiriant golchi llestri a pheiriant golchi ar wahanol adegau. Byddwn yn darparu amrywiaeth o gyngor ac anogaeth yn ystod y treial a gallwch gael rhagor o wybodaeth yma (cyswllt i adnoddau). Byddwn hefyd yn cael rhai cyfarfodydd grŵp bach neu sesiynau galw heibio lle bydd cyngor gan y tîm Cyd Ynni - Ynni Lleol ac aelodau eraill y grŵp.

A oes rhaid i mi newid cyflenwyr?

Oes, bydd rhaid i chi newid at y cyflenwr a ddewiswyd gan Cyd Ynni - Ynni Lleol . Ar gyfer y treial cyntaf y cyflenwr yw Cooperative Energy ond yn y dyfodol gall y grŵp ddewis. Rydym yn credu bod Cooperative Energy yn rhannu gwerthoedd y treial i geisio cefnogi ynni adnewyddadwy glân a chreu system ynni tecach.

Am fwy o wybodaeth am Cooperative Energy ewch i - www.cooperativeenergy.coop

Oes rhaid i mi newid fy nghyflenwr nwy i Cooperative Energy?

Na, gallwch aros gyda'ch cyflenwr nwy presennol os ydych yn dymuno, ond bydd Cooperative Energy yn cynnig opsiwn tanwydd deuol.

A fyddaf yn dal i dalu tâl sefydlog ar gyfer fy nefnydd o drydan?

Byddwch. ~17.8p/dydd

Sut mae'r gymuned leol yn elwa o Cyd Ynni - Ynni Lleol ?

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i hydro Afon Berthan werthu'r pŵer y mae'n ei gynhyrchu am lai na 5c / kW awr. Trwy Cyd Ynni - Ynni Lleol , bydd y cyfranogwyr yn talu ~ 7c / kW awr pan fyddant yn cyfateb eu defnydd i'r trydan a gynhyrchir gan yr hydro – bydd y pris yma yn cael ei basio ymlaen i'r hydro, gan gynyddu ei incwm, tra bod cyfranogwyr yn cael biliau is.

Bydd cynllun hydro Afon Berthan a fydd yn rhan o Cyd Ynni - Ynni Lleol yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a byddwn yn cefnogi'r gwaith gwych maent yn ei wneud .

Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio y gall cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ddod yn rhan o Cyd Ynni - Ynni Lleol a gallwn eu helpu i gynhyrchu mwy o arian ar gyfer eu cronfeydd cymunedol.

Pwy all gymryd rhan?

Rwy'n fusnes bach, alla i fod yn rhan o Cyd Ynni - Ynni Lleol?

Efallai y byddwch yn gallu cymryd rhan, ond yr ydym yn dal i weithio ar hyn. Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb ar waelod y dudalen hon a byddwn yn cysylltu â chi .

A allaf gymryd rhan os nad wyf yn byw ym Methesda?

Ar gyfer y treial hwn, rydym ond yn chwilio am gartrefi ym Methesda a chymdogaethau cyfagos, fodd bynnag, rydym yn gobeithio y gellir ehangu'r model yma a bydd grwpiau newydd yn cael eu ffurfio mewn mannau eraill.

A oes rhaid i mi fod yn berchen ar fy nghartref?

Nac oes, ond rhaid i chi fod y person sy'n talu'r bil trydan. Os ydych yn rhentu, rhaid i chi gael caniatâd eich landlord i gael gosod mesurydd deallus.

Yr wyf ar Economy 7, a allaf ymuno?

Cewch, ond bydd angen i chi gael mesurydd deallus wedi ei osod a symud i Tariff Amser Defnydd gyda phawb arall. Bydd trydan yn ystod y nos yn dal i fod yn rhatach, ond bydd pedwar tariff yn hytrach na dau .

A allaf ymuno os wyf ar fesurydd rhagdaliad?

Rydym yn gobeithio, ond yr ydym yn dal i weithio ar hyn. Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb ar waelod y dudalen hon a byddwn yn cysylltu â chi.

Rhai Ystyriaethau Ymarferol

Gyda phwy y gallaf siarad os oes gennyf gwestiwn?

Bydd Cooperative Energy yn darparu hyfforddiant i'w staff fel y byddant yn gallu ateb cwestiynau am Cyd Ynni - Ynni Lleol. Byddwch hefyd yn gallu cysylltu â thîm Cyd Ynni - Ynni Lleol drwy e-bost a dros y ffôn a byddwn yn diweddarw ein gwefan www.energylocal.uk/cydynni.

Sut fyddwch yn anfon gwybodaeth i mi?

Y ffordd hawsaf yw i ni e-bostio gwybodaeth i chi. Rydym yn deall nad yw hyn yn ymarferol i rai pobl a gallwn gysylltu â chi drwy'r post. Bydd tudalen we i ddangos i chi, eich defnydd o ynni a phryd mae'r hydro leol yn gweithredu .

A allaf adael y grŵp Cyd Ynni - Ynni Lleol?

Bydd y treial yn para am 1 flwyddyn o fis Mehefin 2016 ac rydym yn gofyn i chi ymrwymo i gymryd rhan am y flwyddyn. Os, am amgylchiadau annisgwyl bydd angen i chi adael, gallwch symud i dariff cyffredin Cooperative Energy neu newid cyflenwr. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, rydym yn gobeithio y byddwch yn gallu bod yn rhan o gynllun i olynu Cyd Ynni - Ynni Lleol .

Beth yw mesurydd deallus a pham fy mod angen un?

Mae mesurydd deallus yn mesur faint o drydan a nwy rydych yn ei ddefnyddio bob hanner awr ac yn anfon y wybodaeth at eich cyflenwr heb i chi orfod darllen y mesurydd. Bydd angen i chi gael mesurydd deallus i fod yn rhan o Cyd Ynni - Ynni Lleol i ddangos eich bod yn defnyddio pŵer pan oedd yr hydro yn cynhyrchu ac i godi tâl arnoch ar brisiau gwahanol ar gyfer pŵer a ddefnyddir ar wahanol adegau o'r dydd .

Mae dros 1 miliwn o gartrefi eisoes wedi cael mesuryddion deallus wedi eu gosod. Bydd eich mesurydd deallus yn cael ei osod gan Cooperative Energy ac ni fyddwch yn gorfod talu. Byddwch yn cadw'r mesurydd deallus ar ddiwedd y treial neu os byddwch yn gadael y treial. Am ragor o wybodaeth am fesuryddion deallus ewch www.smartenergygb.org

Pwy fydd yn darparu'r bil?

Bydd Cooperative Energy yn darparu bil chi fel arfer er y bydd yn edrych yn wahanol i'ch bil ar hyn o bryd gan y bydd rhaid i chi dalu prisiau gwahanol ar gyfer pŵer ar wahanol adegau o'r dydd. Byddwn yn ymgynghori â chi ar y ffordd gliriaf i roi gwybodaeth i chi. Bydd Cooperative Energy yn trosglwyddo'r taliadau i'r hydro lleol am yr ynni mae'n ei gynhyrchu sy'n cael ei ddefnyddio'n lleol.

A oes unrhyw ofynion ychwanegol i gymryd rhan yn y treial?

Gan fod hwn yn dreial rydym yn gobeithio dysgu mwy am sut mae pobl yn ymateb i Dariff Amser Defnydd a sut maent yn cyfateb eu defnydd i'w cynhyrchwyr adnewyddadwy lleol . Byddwn yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn rhai grwpiau trafod a chwblhau un neu ddau arolwg yn ystod y flwyddyn.

Beth yw kW awr?

Yr uned o ynni sy'n cael ei ddefnyddio i fesur faint o drydan rydych yn ei ddefnyddio. Er enghraifft, o ddefnyddio popty trydan i goginio byddai rhostio cyw iâr yn defnyddio tua 2 kW awr o drydan. Byddai gwylio'r teledu am awr yn defnyddio tua 0.1 kW awr.

Mwy am y bobl tu cefn i Cyd Ynni - Ynni Lleol

Beth yw Ynni Lleol?

Mae Ynni Lleol yn sefydliad bach, dielw a ffurfiwyd i ddangos sut y gall cymunedau lleol ac ynni adnewyddadwy ar raddfa fach gael gwerth ychwanegol o'r farchnad drydan drwy weithio gyda'i gilydd.

Pwy yw Cyd Ynni?

Mae Cyd Ynni yn gonsortiw o gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy cymunedol yn cynnwys Ynni Ogwen, Ynni Padarn Peris, Moelyci, Coetir Mynydd, Antur Waunfawr, Ffarm Moelyci ac Ynni Anafon.

Enw'r grŵp y byddwch yn ymuno ag ef yw Cyd Ynni - Ynni Lleol gan ei fod yn bartneriaeth rhwng y ddau grŵp.

Pwy arall sy'n cymryd rhan yn rhedeg y treial?

- Mae Partneriaeth Ogwen yn fenter gymdeithasol sy'n cefnogi cymunedau Dyffryn Ogwen .
- Mae Cooperative Energy yn gwmni cyflenwi trydan a sefydlwyd er budd ei gwsmeriaid
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchnogion y cynllun hydro a fydd yn rhan o'r treial Cyd Ynni- Ynni Lleol .
- Mae 10:10 yn elusen yn y DU sy'n helpu cymunedau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd .

Pwy sy'n talu am y Treial?

Bydd yn rhad ac am ddim i chi fod yn rhan o'r grŵp Cyd Ynni - Ynni Lleol ond mae'r partneriaid sy'n cymryd rhan yn derbyn cyllid grant o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru / Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
- Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE

Rydym yn gwneud cais am grantiau pellach hyd nes bydd y prosiect yn hunan -gynhaliol.

Gallwch weld y cyllidwyr eraill sydd wedi cefnogi Ynni Lleol ar eu gwefan <http://www.energylocal.co.uk/partners-and-sponsors/>

Diogelu Data

Pwy fydd yn gallu gweld fy miliau trydan?

Bydd y data bob hanner awr yn cymryd lle eich darlleniadau mesurydd a bydd Cooperative Energy yn defnyddio hyn i gynhyrchu eich bil yn ôl pan fyddwch wedi defnyddio'r pŵer. I fod yn rhan o'r treial mae angen i chi roi caniatâd iddyn nhw gael gweld a defnyddio'r data hwn. Mae hyn yn arfer safonol. Byddai partneriaid eraill yn hoffi gweld eich data i ddeall sut mae pobl yn ymateb a'r arbedion y maent yn eu gwneud. Byddem hefyd yn hoffi rhoi awgrymiadau i chi ar sut i wneud y gorau o Cyd Ynni - Ynni Lleol. Byddwn yn gweld y data ar ffurf fformat dienw.

Yn yr un modd efallai y byddwn yn dymuno rhannu data gydag asiantaethau llywodraeth a bydd hyn hefyd mewn fformat dienw.

Byddwn yn rhoi manylion llawn am sut gall data gael ei ddefnyddio i chi ac yn gofyn eich caniatâd pan fyddwch yn cofrestru.

